



## Prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith: Rhan 3 y Ddogfen Bolisi Briodol

---

Mae Rhan 3 Deddf Diogelu Data 2018 (Deddf 2018) yn nodi'r gofyniad i sicrhau bod Dogfen Bolisi Briodol (APD) ar waith wrth brosesu data personol sensitif at ddibenion gorfodi'r gyfraith.

Diffinnir prosesu sensitif yn Rhan 3 adran 35(8) ac mae'n cyfateb i ddata categori arbennig o dan y GDPR. Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- prosesu data personol sy'n datgelu tarddiad hiliol neu ethnig, safbwyntiau gwleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol neu aelodaeth o undebau llafur;
- prosesu data genetig, neu ddata biometrig, at ddiben adnabod unigolyn mewn ffordd unigryw;
- prosesu data sy'n ymwneud ag iechyd;
- prosesu data sy'n ymwneud â bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol unigolyn.

Mae'n rhaid i weithgareddau prosesu data at ddibenion gorfodi'r gyfraith gydymffurfio â'r egwyddorion diogelu data a amlinellir yn Rhan 3 o Ddeddf 2018. Yn benodol, mae'r egwyddor diogelu data gyntaf (adran 35) yn nodi bod yn rhaid i weithgareddau prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith fod yn gyfreithlon ac yn deg. Yn ogystal, dim ond os oes gennych Ddogfen Bolisi Briodol ac os yw'r gweithgarwch prosesu yn bodloni'r amodau canlynol y cewch brosesu data personol sensitif at ddibenion gorfodi'r gyfraith:

- mae'r gweithgarwch yn seiliedig ar gydsyniad testun y data - gweler adran 35(4);

- mae'r gweithgarwch yn gwbl angenrheidiol at ddiben gorfodi'r gyfraith ac yn seiliedig ar amod Atodlen 8 - adran 35(5).

Diben y ddogfen hon yw dangos bod gweithgareddau prosesu data sensitif yn cydymffurfio â'r gofynion yn Rhan 3 adran 42 Deddf 2018. Mae adran 42(2) yn nodi, ar gyfer y gweithgarwch prosesu uchod, dylai'r Ddogfen Bolisi Briodol:

- (a) esbonio'r gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data wrth orfodi'r gyfraith;
- (b) esbonio'r polisiau o ran cadw a dileu data personol, gan roi syniad o ba hyd y mae'r data personol yn debygol o gael ei gadw.

Polisi cyffredinol ar gyfer prosesu data sensitif gan yr heddlu yw'r ddogfen hon. Lle bo risgiau uchel posibl o ganlyniad i weithgareddau prosesu penodol, caiff dogfen bolisi wedi'i theilwra'n arbennig ei llunio mewn perthynas â'r gweithgarwch hwnnw. Fodd bynnag, dim ond ar sail eithriadol y gwneir hyn.

Rhaid adolygu'r Ddogfen Bolisi Briodol hon yn rheolaidd a bydd angen ei chadw am chwe mis ar ôl y dyddiad y bydd y gweithgarwch prosesu perthnasol wedi dod i ben.

## Disgrifiad o'r data a brosesir

Rhowch ddisgrifiad cryno o bob categori o ddata sensitif a brosesir

- Tarddiad hiliol neu ethnig;
- Safbwyntiau gwleidyddol;
- Credoau crefyddol neu gredoau eraill o natur debyg;
- Aelodaeth o undeb llafur;
- Cyflwr iechyd corfforol neu iechyd meddwl;
- Bywyd rhywiol;
- Troseddau a throseddau honedig;
- Achosion troseddol, canlyniadau a dedfrydau;
- Rhybuddiadau, ceryddion a rhybuddion;
- Dynodwyr corfforol, gan gynnwys DNA, olion bysedd a samplau genetig eraill;
- Ffotograffau, recordiadau sain a delweddau gweledol;
- Cudd-wybodaeth Droseddol;
- Gwybodaeth yn ymwneud â diogelwch;
- Digwyddiadau, a manylion am Ddamweiniau

## Cydsyniad neu amod Atodlen 8 ar gyfer prosesu

Ar gyfer y data sensitif penodol rydych yn eu prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith, esboniwch p'un a ydych yn dibynnu ar gydsyniad neu amod Atodlen 8 benodol ar gyfer prosesu. Fel arall, mae'n bosibl y byddwch am roi dolen i'ch polisi preifatrwydd, eich cofnod prosesu neu unrhyw ddogfennaeth berthnasol arall:

Dibenion statudol ac ati - mae angen prosesu'r data er mwyn arfer swyddogaeth sy'n ofynnol gan berson drwy ddeddfiad neu reolaeth y gyfraith, ac mae angen gwneud hynny am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd

Gweinyddu cyfiawnder

Diogelu buddiannau hanfodol unigolyn

Diogelu plant ac unigolion sy'n wynebu risg - diogelu unigolyn rhag esgeulustod neu niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol, neu ddiogelu llesiant corfforol, meddyliol neu emosiynol unigolyn o dan 18 oed, neu unigolyn sy'n 18 oed neu drosodd ac yn wynebu risg.

Cynhelir y gweithgarwch prosesu heb gydsyniad testun y data ac mae angen y gweithgarwch prosesu am resymau sy'n ymwneud â budd sylweddol i'r cyhoedd.

- O dan yr amgylchiadau, ni all testun y data roi cydsyniad i'r gweithgarwch prosesu;
- o dan yr amgylchiadau, ni ellir disgwyl yn rhesymol i'r rheolydd gael cydsyniad testun y data i'r gweithgarwch prosesu;
- mae'n rhaid cynnal y gweithgarwch prosesu heb gydsyniad testun y data gan y byddai cael cydsyniad testun y data yn cael effaith andwyol ar ddarparu'r diogelwch.
- "Yn wynebu risg" – Mae unigolyn 18 oed a throsodd yn wynebu risg os bydd gan y rheolydd achos rhesymol dros amau fod anghenion gofal a chymorth gan yr unigolyn, ei fod yn cael ei esgeuluso neu'n dioddef niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol, neu ei fod yn wynebu risg o hynny, ac o ganlyniad i'r anghenion hynny na all ddiogelu ei hun yn erbyn yr esgeulustod neu'r niwed neu'r risg ohono.

Mae'r data personol eisoes yn ddata cyhoeddus – fe'u gwnaed yn gyhoeddus gan destun y data

Hawliadau cyfreithiol:

- mae angen prosesu'r data at ddiben unrhyw achos cyfreithiol (gan gynnwys achos cyfreithiol arfaethedig) neu mewn perthynas ag achos o'r fath,
- mae angen prosesu'r data at ddiben cael cyngor cyfreithiol, neu
- mae angen prosesu'r data fel arall at ddibenion cadarnhau, arfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol

### Atal Twyll

- datgelu data personol gan awdurdod cymwys fel aelod o sefydliad gwrth-dwyll,
- datgelu data personol gan awdurdod cymwys yn unol â threfniadau a wnaed gan sefydliad gwrth-dwyll, neu
- prosesu data personol a ddatgelwyd fel y disgrifir uchod

### Archifo ac ati

- at ddibenion archifo er budd y cyhoedd,
- at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol, neu
- at ddibenion ystadegol.

## Gweithdrefnau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r egwyddorion

Mae angen i chi esbonio, yn gryno a chan gyfeirio at yr amodau y dibynnir arnynt, sut mae eich gweithdrefnau yn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r egwyddorion isod.

Mae hyn yn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau atebolrwydd. Mae cyfrifoldeb arnoch i ddangos bod eich polisiau a'ch gweithdrefnau yn sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion ehangach Rhan 3 o Ddeddf 2018 ac, yn benodol, yr egwyddorion. Mae sensitifrwydd y data yn golygu bod y mesurau technegol a threfniadol sydd ar waith gennych i'w diogelu yn holl bwysig.

Wrth esbonio eich cydymffurfiaeth â'r egwyddorion, dylech ystyried manylion penodol eich gweithgarwch prosesu mewn perthynas â'r data penodol a nodwyd gennych uchod.

Nid oes unrhyw ofyniad ychwaith i atgynhyrchu gwybodaeth a gofnodir yn rhywle arall – **gellir ateb cwestiynau drwy ddarparu dolen neu gyfeiriad at ddogfennaeth arall, at eich polisiau a'ch gweithdrefnau, eich Aseidiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) neu at eich hysbysiadau preifatrwydd.**

### Yr egwyddor atebolrwydd

- i. A ydym yn cadw dogfennaeth briodol am ein gweithgareddau prosesu?  
Ydym – Cofnodion prosesu; cofnodlyfrau; archwiliadau; aseidiadau o'r effaith ar ddiogelu data (DPIA)
- ii. A oes gennym bolisiau diogelu data priodol?  
Oes, mae polisi diogelu data cyffredinol a ategir gan ganllawiau a dogfennau proses. Ceir cyfres o Bolisiau Diogelu Gwybodaeth hefyd.

- iii. A ydym yn cadw cofnodlyfrau yn unol â'n rhwymedigaethau o dan adran 62? Ydym, cynlluniwyd y systemau gweithredol i fodloni'r gofynion cofnodi.

### **Egwyddor (1): cyfreithlondeb a thegwch**

- i. Os yw'r gweithgarwch prosesu yn dibynnu ar amod Atodlen 8, a yw'r gweithgarwch prosesu yn gwbl angenrheidiol at y dibenion gorfodi'r gyfraith a nodwyd?  
Ydy – dim ond lle y bo'n gwbl angenrheidiol at ddibenion atal troseddau, ymchwilio iddynt, eu canfod neu eu herlyn neu roi cosbau troseddol, gan gynnwys diogelu rhag bygythiadau i ddiogelwch cyhoeddus a'u hatal y cynhelir y gweithgarwch prosesu.
- ii. Os ydym yn dibynnu ar gydsyniad er mwyn prosesu, a ydym yn fodlon bod y cydsyniad yn ddilys?  
Anaml y defnyddir cydsyniad, ond lle y caiff ei ddefnyddio, caiff ei roi mewn ffordd gwbl barod a diamwys, caiff ei roi ar sail gwybodaeth a gellir ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.
- iii. A ydym yn sicrhau bod gwybodaeth briodol ar gael am breifatrwydd mewn perthynas â'r data sensitif?  
Ydym. Mae gwybodaeth ar gael yn yr Hysbysiad Preifatrwydd a lle bo angen, tynnir sylw ychwanegol ati o dan yr amgylchiadau penodol.

[Hysbysiad Preifatrwydd | Heddlu De Cymru \(south-wales.police.uk\)](https://south-wales.police.uk)

[Hysbysiad Preifatrwydd | Heddlu Gwent](#)

### **Egwyddor (2): cyfyngiadau o ran dibenion**

- i. Beth yw'r diben(ion) gorfodi'r gyfraith ar gyfer prosesu fel yr amlinellir yn adran 31?  
Dim ond lle y bo'n gwbl angenrheidiol at ddibenion atal troseddau, ymchwilio iddynt, eu canfod neu eu herlyn neu roi cosbau troseddol, gan gynnwys diogelu rhag bygythiadau i ddiogelwch cyhoeddus a'u hatal y cynhelir y gweithgarwch prosesu.
- ii. A yw ein dibenion ar gyfer prosesu mewn perthynas â gorfodi'r gyfraith wedi'u dynodi, yn amlwg ac yn ddilys?  
Ydynt.

- iii. Os ydym yn prosesu data sensitif at ddiben newydd sy'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith, a ydym yn sicrhau bod y gweithgarwch prosesu newydd wedi'i awdurdodi gan y gyfraith a'i fod yn angenrheidiol ac yn gymesur? Ydym.
- iv. Os ydym yn bwriadu defnyddio data sensitif at ddiben newydd ac eithrio dibenion gorfodi'r gyfraith, sut y caiff y gweithgarwch prosesu ei awdurdodi gan y gyfraith a sut y sicrhau ei fod hefyd yn bodloni gofynion y GDPR a Deddf 2018?  
Caiff y prawf cydnawsedd ei gyflawni a rhoddir ystyriaeth i'r wybodaeth prosesu teg a roddwyd ar adeg casglu'r wybodaeth a ph'un a oes angen darparu gwybodaeth ychwanegol. Fel corff statudol, bydd cyfraith gyffredin neu bwerau statudol/rheoleiddiol yn gymwys i bob gweithgarwch prosesu.

### **Egwyddor (3): lleihau data**

- i. A ydym yn fodlon mai dim ond data sensitif sydd eu hangen o ddifrif arnom at ein dibenion dynodedig a gesglir gennym a'u bod yn gymesur?  
Ydym – cynlluniwyd y systemau i gofnodi gwybodaeth berthnasol yn unig.
- ii. A ydym yn fodlon bod gennym ddigon o ddata sensitif i gyflawni'r dibenion hynny'n briodol?  
Ydym – cynlluniwyd y systemau i gofnodi gwybodaeth berthnasol yn unig.
- iii. A ydym yn adolygu'r data sensitif penodol hyn yn rheolaidd, ac yn dileu unrhyw beth nad oes ei angen arnom?  
Ydym – mae cyfnodau adolygu penodol ar waith ar gyfer yr holl ddata.

### **Egwyddor (4): cywirdeb**

- i. A oes proses ar waith gennym i nodi pan fo angen i ni ddiweddararu'r data sensitif yn rheolaidd er mwyn cyflawni ein diben yn briodol, a sut rydym yn dileu neu'n cywiro data anghywir fel y bo angen yn ddi-oed?  
Oes – er y gellir atodi datganiad ategol at y wybodaeth yn hytrach na'i diwygio lle na ellir newid y wybodaeth at ddibenion tystiolaethol.
- ii. A ydym yn gwahaniaethu rhwng data personol sensitif sy'n seiliedig ar ffeithiau a data personol sensitif sy'n seiliedig ar asesiadau personol (barn)?  
Ydym.
- iii. Lle y bo'n berthnasol a chyhyd ag y bo'n bosibl, a ydym yn gwahaniaethu rhwng data personol sensitif sy'n ymwneud â gwahanol categorïau o destunau data, fel yr amlinellir yn adran 38(3)?  
Caiff pob categori o destun data ei ddiffinio.

- iv. A ydym yn bodloni'r gofynion dilysu o dan adran 38(5) ar gyfer trosglwyddo data?  
Ydym.

#### **Egwyddor (5): cyfyngiadau storio**

- i. A ydym yn ystyried yn ofalus am ba hyd y byddwn yn cadw'r data sensitif at y diben prosesu ac a allwn gyfiawnhau'r cyfnod hwn?  
Ydym – mae'r holl ddata yn ddarostyngedig i adolygiadau a gynhelir yn unol â chyfnodau cadw.
- ii. A ydym wedi pennu terfynau amser priodol ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd o'r angen i barhau i storio'r data personol sensitif hyn?  
Ydym – mae terfynau amser rheoleiddiol a statudol ar gyfer cynnal adolygiadau rheolaidd o'r fath.

#### **Egwyddor (6): diogelwch**

- i. A ydym wedi dadansoddi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'n gweithgarwch prosesu ac wedi defnyddio'r dadansoddiad hwn i asesu'r lefel briodol o ddiogelwch sydd ei hangen arnom ar gyfer y data hyn?  
Ydym – caiff data eu hasesu mewn nifer o ffyrdd, DPIA, asesiadau risg, asesiadau risg o wybodaeth a rheoli asedau gwybodaeth, cydymffurfiaeth o ran Diogelu Data ac maent hefyd yn ddarostyngedig i Gynllun Dosbarthu Data'r Llywodraeth.
- ii. A oes polisi diogelu gwybodaeth (neu bolisi cyfatebol) gennym mewn perthynas â'r data sensitif hyn ac a ydym yn cymryd camau i sicrhau y caiff y polisi ei roi ar waith? A gaiff ei adolygu'n rheolaidd?  
Mae data sensitif a gaiff eu prosesu at ddibenion gorfodi'r gyfraith yn ddarostyngedig i ofynion rheoleiddiol a statudol o ran cadw. Ceir polisi diogelu gwybodaeth sy'n ymdrin â rheolaethau mynediad a mesurau diogelwch technegol a pholisi diogelu data cyffredinol sy'n nodi'r gofynion prosesu ar gyfer data.
- iii. A ydym wedi rhoi mesurau neu reolaethau technegol eraill ar waith oherwydd yr amgylchiadau a'r math o ddata sensitif rydym yn eu prosesu? Cedwir y wybodaeth ar systemau diogelu yr heddlu. Caiff defnyddwyr eu fetio a dim ond y rheini y mae angen iddynt wneud hynny a gaiff weld y wybodaeth. Darperir hyfforddiant i bob aelod o staff bob blwyddyn a cheir Tîm Rheoli Gwybodaeth dynodedig sy'n darparu cyngor penodol a chyffredinol i'r heddlu ar faterion sy'n ymwneud ag ymdrin â data. Caiff asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data (DPIA) eu cynnwys o fewn prosesau er mwyn sicrhau y caiff mesurau priodol eu cymryd mewn perthynas â gwahanol fathau o ddata.

## Polisïau cadw a dileu

Mae angen i chi esbonio eich polisïau cadw a dileu mewn perthynas â phob categori o ddata sensitif (gallai hyn gynnwys dolen i'ch polisi cadw os oes gennych bolisi o'r fath). Mae angen i chi gadarnhau'n benodol am ba hyd y byddwch yn cadw pob categori penodol o ddata sensitif, yn enwedig os nad oes gan y data unrhyw werth gweithredol mwyach.

Cedwir gwybodaeth yn unol â Rheoli Gwybodaeth yr Heddlu, CPIA a PACE.

Caiff data anweithredol eu cadw yn unol ag amserlen cadw'r heddlu.

## Dyddiad Adolygu'r Ddogfen Bolisi Briodol

Gorffennaf 2022